



MAE LIVE MUSIC NOW YN CYHOEDDI APWYNTIADAU NEWYDD PWYSIG AC AIL-DREFNU CYNLLUN STRATEGOL NEWYDD Y GANOLFAN



Janet Fischer

28 Ionawr 2021

Heddiw, cyhoeddodd Live Music Now, un o elusennau blaenllaw cerddoriaeth y DU, apwyntiad Janet Fischer i swydd newydd fel Prif Weithredwr a Nina Swann fel Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r apwyntiadau hyn yn rhan o adolygiad eang ac uchelgeisiol i gynnwys ei buddiolwyr a phartneriaid i ehangu cyrhaeddiad ac effaith yr elusen.

Mae Live Music Now yn trawsnewid bywydau drwy gerddoriaeth, drwy ddefnyddio rhaglenni cerddorol rhyngweithiol i wella iechyd a lles grwpiau bregus a rhai dan anfantais. Ar hyn o bryd, mae'r elusen yn cyrraedd 85,000 o blant a phobl hŷn yn flynyddol mewn dros 500 o ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal a hosbisau. Mae ei rhaglenni hyfforddi byd-enwog yn ffurfio'r genhedlaeth nesaf o artistiaid sy'n gweithio'n gymdeithasol a cherddorion proffesiynol y dyfodol. Yn ganolog i holl weithgareddau Live Music Now mae sylweddoli mai'r rhai sydd fwyaf angen buddion cerddoriaeth fyw yw'r rhai sy'n cael y cyfle lleiaf i'w phrofi.

Mae Janet Fischer yn Brif Weithredwr profiadol sefydliadau diwylliannol a hi yw Entrepreneur Dyngarol Byd-eang Sefydliad Hildegard Behrens 2019. Mae'n cynnig llwyddiant blaenorol i Live Music Now mewn busnes strategol a rheoli newid diwylliannol, codi arian a datblygu rhaglenni. Wrth ganolbwyntio ar ddelio â materion ymgysylltu cymdeithasol, cydlyniant a chynhwysiant, mae Janet wedi gweithio gydag ymyriadau celfyddydol ar draws y DU ac America gan gynnwys Fundación Azteca ym Mecsico a Sistema de Orquestras de Guatemala. Mae Janet yn soprano opera a feiolinydd gwerin sydd wedi perfformio ar draws Gogledd America ac Ewrop ac yn athrawes hynod boblogaidd.

Mae gan Nina Swann dros ugain mlynedd o brofiad yn dyfeisio ac yn rheoli rhaglenni cerddoriaeth cynhwysol yn Ysbytai Chelsea a Westminster a Cherddorfa Symffoni Llundain ac, yn fwy diweddar, Live Music Now lle'r oedd cynt yn Gyfarwyddwr Datblygu Cerddorion a Chyfarwyddwr cangen y De Ddwyrain.

Bydd Janet a Nina'n gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Strategol Live Music Now, Karen Irwin a Douglas Noble, a'r tîm o gyfarwyddwyr canghennau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon wrth ddyfeisio a gweithredu'r cynllun strategol.

Dywedodd Syr Vernon Ellis, Cadeirydd Live Music Now:

"Mae ymddiriedolwyr Live Music Now yn falch iawn i groesawu Janet i rôl newydd y Prif Weithredwr. Roedd wedi creu argraff ar bob un ohonom gyda'i mewnwelediad, gwybodaeth am y sector, egni ac angerdd tuag at ein gwaith. Bydd hyn i gyd yn profi'n werthfawr wrth i ni gynyddu effaith yr elusen er mwyn sicrhau y gall mwy o bobl glywed cerddoriaeth fyw i newid eu bywydau. Mae hwn yn gyfle da i ddiolch i Nina am wneud swydd cystal fel Cyfarwyddwr Gweithredol drwy gydol y pandemig gan sicrhau bod ein cerddorion llawrydd wedi cael eu cefnogi a bod ein gwaith yn parhau drwy'r wlad er waethaf yr heriau oedd yn eu hwynebu yn ystod yr amseroedd heriol hyn."

Dywedodd Janet Fischer:

"Rydw i'n falch iawn o allu ymuno â Live Music Now ar adeg mor bwysig yn ei hanes. Mae gan LMN dîm anhygoel sy'n gweithio ar flaen y gad mewn profiadau cerddoriaeth trawsffurfiol. Bu hwn yn gyfnod anodd i nifer ac mae'r angen am wasanaethau i newid ein bywydau'n cynyddu ar draws y DU. Rydw i'n edrych ymlaen at sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl wedi cael mynediad i'n gwaith tra'n sicrhau bod LMN yn parhau i greu profiadau ystyrlon dwfn i'n cerddorion a'n cyfranogwyr ac yn llais cenedlaethol ar gyfer newid."

Pob ymholiad gan y wasg i Simon Millward, Premier PR, simon.millward@premiercomms.com, 07990507310.

I gael mwy o wybodaeth am Live Music, ewch i www.livemusicnow.org.uk